

‘Cennad dyn yw bod yn frawd’

Dyma ddilema. Mae'r Golygydd wedi gofyn am ddarn i'r cyhoeddiad newydd. Darn sy'n sôn rhywbeth am Waldo Williams. Rhoes wybod mai teitl y cyhoeddiad yw *Cenn@d*. Ac mae un llinell o waith y bardd mawr yn mynnu gwrthio i frig y meddwl: ‘Cennad dyn yw bod yn frawd’.

Bydd y darllenwyr yn cofio mai llinell ganol, pennill canol cerdd enwog Waldo i'r Tangnefeddwyr yw hi. Mae'n gymar i'r llinell ‘Golud Duw yw'r anwel fyd’. A'r ddau beth hyn gyda'i gilydd, sef ‘bod yn frawd’ a'r ‘anwel fyd’, yw'r ‘ddeuberl drud’ a roddodd ‘angel y cartrefi tlawd’ i'w rieni, yn ôl y gerdd.

Mae grym ychwanegol i'r gân hon oddi ar i Eric Jones gyfansoddi miwsig mor berffaith i'w chario hi, a bellach mae'n rhan o *repertoire* bob côr drwy Gymru, wedwn i. (Ac O! brysied y dydd y cawn ni glywed y corau hyn tu hwnt i ffenestri bach y Zoom mewn neuaddau ar hyd a lled y wlad ... clywed gwich sedd y piano, clywed baton yr arweinydd yn taro'r stand ar ddamwain, clywed anadl y cantorion a chlywed cymeradwyo ein gilydd.)

Gyda'r teitl yn ein hannog i ‘wneud heddwch’ (oherwydd mae grym gweithredol i ‘dangnefedd’, onid oes?), mae'r gerdd yn cynnig y cyfle perffaith i roi hysbys wrth basio am yr Academi Heddwch a dod, gobeithio, ag ychydig o newyddion da i'r hen ddyddiau dyrys hyn. Daeth yr Academi i fod ar y 21ain o fis Medi llynedd, Diwrnod Heddwch y Byd, ac erbyn Dydd Gŵyl Dewi eleni byddwn, gobeithio, wedi hysbysebu am ei chydlynnydd cyntaf. Y nod yw tynnu holl brifysgolion Cymru ynghyd i weithio er mwyn gweld Cymru'n gwneud cyfraniad i ymchwil ac ymarfer heddwch, gweld ffocws ar heddwch ym mhollisiau perthnasol Llywodraeth Cymru a gweld y cyhoedd yn ymddiddori'n fyw mewn materion heddwch yng Nghymru a thu hwnt. Yn syml, ailgodi ‘heddwch’, y gair a'r gwerth, yn ein cymdeithas.

Pa ddilema felly? A dyma ni 'nôl gyda'r llinell honno o gerdd Waldo a'r gwybod nad yw hi, fel mae'n sefyll, yn gyflawn nac ychwaith yn adlewyrchiad teg o goflaid hollgwmpasog y bardd. Mae'n rhaid i ni fenywod ddeall ei bod hi hefyd



yn ein cynnwys ni, a bod ‘bod yn chwaer’ yn llawn gystal peth â ‘bod yn frawd’. Mae'n amhosib credu fel arall, h.y. credu nad yw Waldo fan hyn yn gweld y ‘dyn’ a'r ‘brawd’ yn golygu pawb. Mae e'n defnyddio'r geiriau fel llaw-fer, ac mae'n gwneud hynny yn unol â thraddodiad y canrifoedd. Nid collfarnu Waldo a wnaf gan hyn. Dim o gwbl. Dim ond tynnu sylw at beth mor gynnill o bwerus yw iaith. Mae ei geirfa – a'i chystrawen hyd yn oed – yn ddrych i werthoedd ei chymdeithas.

A pha werthoedd fydd ymhlyg yn iaith *Cenn@d*, tybed? Pâr arall o linellau yn yr un gerdd dan sylw yw'r un ar

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

‘Cennad dyn yw bod yn frawd’ (parhad o dudalen 1)

ddechrau pennill pedwar: ‘Cenedl dda a chenedl ddrwg – /Dysgent hwy mai rhith yw hyn’. Gyda’r gosodiad hwn gwelwn Waldo yn cynnig syniad nad oedd yn rhan o feddylfryd cyffredin ei ddydd a set o werthoedd nad ydym ni eto wedi eu mabwysiadu’n iawn. Oherwydd, flynyddoedd yn ddiweddarach, onid oes tueddiad yn dal mewn rhai cylchoedd i feddwl bod ambell genedl yn well na’i gilydd? Ac wrth i ni geisio’n ffordd o’r pandemig hwn, bydd cofio mai ‘rhith’ yw hynny yn allweddol i’n cadw ni rhag y demtasiwn, fel sydd ymhob argyfwng, i fwrw’r bai ar rywun arall.



Felly, wrth ddymuno’r gorau oll i’r cyhoeddiad newydd hwn, dyma obeithio y bydd yn manteisio ar y cyfle i hyrwyddo iaith a gwerthoedd fydd yn ein helpu i chwyldroi’r hen gyfundrefnau anghyfartal a chreu cymdeithas dangnefeddus newydd.

Mererid Hopwood

Cenn@d

O droi at *Eiriadur* Thomas Charles o’r Bala, ystyr y gair cennad yw ‘mynegwr, negesydd, un yn dwyn cenadwri oddi wrth un gŵr neu un deyrnas at un arall’, a phetai *Geiriadur Diwinyddol* y Bedyddiwr John Jones, ‘Mathetes’, wrth law, rwy’n siŵr y byddai’n dweud rhywbeth tebyg. Er ein bod, wrth lansio *Cenn@d*, yn parchu ein gwreiddiau enwadol ac yn ymfalchio yn ein tras, nid edrych yn ôl yw pwrpas yr wythnosolyn newydd ond gwasanaethu ei ddarllenwyr heddiw a pharatoi yn ddisgwyllgar at ofnion yfory. Bu cynrychiolwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn ddyfal ers misoedd yn paratoi at y fenter newydd hon, a’n gobaith ni yw y bydd y cyhoeddiad digidol hwn, os nad yn cymryd lle *YGoleuad* a *Seren Cymru*, o leiaf yn cyflawni swyddogaeth y ddau bapur

newydd yng nghyd-destun gofynion trydydd degawd yr unfed ganrif ar hugain. Gŵyr pawb fod y sefyllfa grefyddol yn newid yn barhaus, a chyfryngau’r genadwri wedi gorfod newid yn ogystal. Cawsom brawf o hyn yn amlwg iawn yn ystod argyfwng y Covid-19, a ninnau wedi gorfod dysgu sgiliau newydd yr YouTube a’r Zoom. Byddwn yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y cyhoeddiad yn datblygu ac yn ennill ei le, gobeithiwn, yng nghalonau cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr.

Beth bynnag am ogoniant ddoe a grym y gwreiddiau, swyddogaeth hollol gyfoes sydd i’r cyhoeddiad hwn. Wrth ddewis yr enw *Cenn@d* – gyda’i ‘a’ gynffonnog yn cyfleu’r dechnoleg newydd – buom yn ymwybodol, ar y naill law, o natur

oesol y genadwri Gristnogol, ac o heriau amryfath y Gymru gyfoes ar y llall. Os ‘mynegi’, neu ‘ddwyn cenadwri’, sy’n cyfleu swyddogaeth *Cenn@d*, anelwn drwyddo gyfryngu gwybodaeth am ein gilydd, ein heglwysi, eu haddoli a’u gweithgareddau, cyfnewid syniadau ac nid hwyrach ffurfio barn, a’r cwbl er hwyluso tystiolaeth y Ffydd. Mae’r tîm golygyddol yn un profiadol ac mae gennym lwyr ymddiriedaeth yn eu gwaith. Agaffi eich annog chi, y darllenwyr, i roi pob cefnogaeth iddynt, a gwneud popeth allwch chi er llwyddiant y fenter. Ein gweddi ni yw y bydd *Cenn@d* yn gyfrwng effeithiol i ledaenu’r Newyddion Da yn y Gymru dechnolegol, ac yn dwyn bendith helaeth yn ei sgil.

D. Densil Morgan

Cadeirydd y Pwyllgor Llywio

“Wedi dros dwy flynedd o drafod, o wrando ac o benderfynu, mae cyhoeddi *Cenn@d* yn nodi carreg filltir bwysig yn ein sylweddoliad fod ein llais Anghydfurfiol angen cael ei glywed gyda’n gilydd. Gyda’r cyhoeddiad, yr wyf yn hyderus y bydd ein dau enwad yn dod i adnabod ei gilydd yn well fyth, ac mai’r cam cyntaf yn unig fydd hwn yn y broses o weld bod pob agwedd o’n gweindogaeth a’n cenhadaeth yn gyffredin inni. Gobeithio y byddwn yn medru sylweddoli hynny fwyfwy, ac y bydd y sylweddoliad yn ennill tir yn ein perthynas gyda’n holl bartneriaid Anghydfurfiol.”

Y Parch Meirion Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru

“Hyfrydwch yw cael croesawu rhifyn cyntaf *Cenn@d* ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld y newyddiadur ar y we yn datblygu i fod yn gyfrwng i’n haddysgu, ein herio a’n calonogi wrth i ni roi’r Efyngyl ar waith yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain.”

Y Parch Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru

Drwy'r Beibl Drwy'r Grawys

Cyfes o saith defosiwn gan Joseff Edwards o Gymdeithas y Beibl yn rhoi golwg inni ar ddarlun mawr y Beibl a'n rhan ynddo

Wythnos 3

Josua, yr alwad a'r addewid – bydd yn gryf a dewr

Darllen: Josua 1.1-18

Myfyrion

Ofn. Tydi hi ddim yn ymddangos fel bod modd i ni ei oresgyn.

Er gwaethaf y sôn am 'gynnydd a datblygiad' mewn cymdeithas, erys ofn. Mae mynediad at newyddion 24/7, codi bwganod a'r cyfryngau cymdeithasol yn cyfrannu at awyryglch o ofn sy'n llenwi ein byd. Mae ofn wedi dod yn gerddoriaeth gefndir i'n bywydau. Boed yn bryderon am arian, am deulu, am iechyd, neu am orfod camu allan i'r anwybod, rydym i gyd yn teimlo'n ofnus a phetrusgar. Ond does dim rhaid i ofn gael y gair olaf yn eich stori ...

Beth oedd achos ofn Josua yn y stori?

Wrth iddo gyrraedd ffin y wlad a addawyd, roedd Josua yn gwybod bod y wlad yn bell o fod yn eiddo iddyn nhw. Doedd Moses, eu harweinydd, ddim yno mwyach ac roedd Josua yn gwybod bod ganddo sandalau mawr i'w llenwi! Ond nid yw Duw yn galw'r sawl sydd â'r offer cywir; yn hytrach mae'n arfogi'r rhai y mae'n eu galw ar gyfer y gwaith. Mae'n dweud wrth Josua am fod yn 'gryf a dewr' (adn. 6), i beidio ag ofni (adn. 9), ac i hawlio'r tir a roddwyd iddyn nhw (adn. 3). Ai geiriau gwag yn unig yw'r rhain? Ymgais Duw ar sgwrs i'w annog ymlaen?

Mae stori Josua yn dangos i ni nad yw geiriau Duw byth yn wag. Mae'n arwain yr Israeliaid ac mae Duw yn ymladd eu brwydrau. Mae'r Beibl yn llawn addewidion na ellir eu torri, sy'n golygu

y gallwn ninnau heddiw gael hyder a gobaith, er gwaethaf heriau bywyd.

Pa addewidion mae Duw yn eu gwneud i Josua? Beth maen nhw'n ei olygu i ni heddiw?

Rydym yn aml yn cysylltu dewrder gyda diffyg ofn. Nid diffyg ofn yw gwir ddewrder, ond y penderfyniad a'r dyfalbarhad i barhau ymlaen er gwaethaf yr ofn. Mae gwroldeb yn golygu dal gafael ar rywbeth mwy na'r ofn. Roedd gan Josua rywbeth mwy i ddal gafael arno. Ac felly ninnau hefyd.

Mae Duw yn addo i Josua y bydd ei bresenoldeb yn mynd gydag ef. Mae'n addo na fydd byth yn ei adael (adn. 5). Mae'n addo llwyddiant trwy ufudd-dod (adn. 8) a buddugoliaeth cyn y frwydr (adn. 3). Mae addewidion fel hyn yn golygu, gyda Duw wrth ei ochr, ni fydd Josua yn methu.

Gyda Duw wrth ein hymyl ninnau, nid oes angen i ni ofni. Mae Duw wedi rhoi'r fuddugoliaeth i ni eisoes, yng nghonwest ei fab Iesu (1 Corinthiaid 15.57). Pa faint bynnag yw eich ofn, waeth pa mor amhosibl yw'r dasg, gallwch chi fod yn ddewr heddiw. Mae Duw'r Beibl yn dweud wrthydd chi, yn union fel y dywedodd wrth Josua: 'Bydd yn gryf ac yn ddewr. Peidiwch ag arswydo na dychryn, oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd dy Dduw, gyda thi ble bynnag yr ei.'

Ymateb

'Nid yw Duw yn galw'r sawl sydd â'r offer cywir; yn hytrach mae'n arfogi'r rhai y mae'n eu galw ar gyfer y gwaith'. Sut gall y gwirionedd hwn eich annog chi heddiw?

Beth am barhau i ddarllen drwy'r wythnos:

Diwrnod 1: Barnwyr 2.1-23

Diwrnod 2: Barnwyr 3.7-11

Diwrnod 3: Rhufeiniaid 8.1

Diwrnod 4: Ruth 1.1-22, 4.13-22

Diwrnod 5: 1 Samuel 3.1-21

Diwrnod 6: 1 Samuel 17.1-58

Diwrnod 7: 1 Brenhinoedd 3.1-28

Calendr y Flwyddyn Eglwysig / Gristnogol – adnodd newydd ar y we

Y mae i'r calendr eglwysig ei rythm a'i dymhorau, wedi'u saernio o gwmpas y prif wyliau Cristnogol, sef y Nadolig, y Pasg a'r Pentecost, yn nodi digwyddiadau allweddol ym mywyd Iesu. Ceir hefyd Suliau arbennig sy'n tynnu sylw at agweddau pwysig o'r ffydd Gristnogol, yn cynnwys dathliadau diolchgarwch, ymgyrchu dros gyfiawnder i bawb o bobl Dduw, cenhadaeth yr eglwys a gofal am greadigaeth Duw.

Bydd llawer o draddodiadau eglwysig yn dilyn patrwm o ddarlleniadau Beiblaidd i gyfeirio'u meddyliau. Mae'r Llithiadur (fersiynau Anglicanaidd [RCL] a Chatholig fel ei gilydd) yn gynllun o ddarlleniadau sy'n troi mewn cylch o dair blynedd, gan ganolbwyntio ar themâu sy'n berthnasol i'r

cyfnod. Dynodir y blynyddoedd yn A, B, neu C. Mae pob cylch blynyddol yn dechrau ar ddydd Sul cyntaf yr Adfent (y dydd Sul rhwng 27 Tachwedd a 3 Rhagfyr). Mae Blwyddyn B yn dilyn blwyddyn A, ac mae blwyddyn C yn dilyn blwyddyn B, yna yn ôl eto i A.

Fel arfer, ceir cyfes o ddarlleniadau ar gyfer pob Sul sy'n cynnwys darnau o un o'r Efyngylau fesul blwyddyn, darn o'r Hen Destament, darn o un o'r Salmuau, ac un arall o'r Epistolau.

Mae Blwyddyn A yn canolbwyntio ar Efyngyl Mathew.

Mae Blwyddyn B yn canolbwyntio ar Efyngyl Marc.

Mae Blwyddyn C yn canolbwyntio ar Efyngyl Luc.

Darllenir Efyngyl Ioan trwy gydol cyfnod y Pasg, ac fe'i defnyddir ar gyfer tymhorau litwrgaidd eraill, gan gynnwys yr Adfent, y Nadolig, a'r Grawys lle bo hynny'n briodol.

Cliciwch isod am y Llithiadur yn Gymraeg:

[Llithiadur yr Eglwys yng Nghymru \(PDF\)](#)

Suliau arbennig

O fewn y calendr Cristnogol ceir hefyd nifer o 'Suliau arbennig' sy'n tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â'n ffydd. Ceir rhestr o'r Suliau/wythnosau hynny isod: www.cristnogaeth.cymru/calendr/

Sylw o'r Seidin – Mawrth 2021

Gwellt

Fy Nuw, fy Nhad, fy Iesu,
boed clod i'th enw byth,
boed dynion yn dy foli
fel rhif y bore wllith;
O na bai gwellt y ddaear
oll yn delynu aur
i ganu i'r hwn a anwyd
ym Methlem gynt o Fair.

Epistol o wellt

Dechrau cadarnhaol a gafwyd yn y
nodiadau dechrau blwyddyn yn y llyfryn
Gair y Dydd ar ddechrau 2021, gyda'r
awdur cyntaf yn canolbwyntio ar Epistol
Iago, gafodd ei ddisgrifio mor annheilwng
gan Martin Luther, fel 'Epistol o wellt!'
Pam hynny, tybed?

Hanes amheus

Dyweddod yr hanesydd Lucy Worsley
yn ddiweddar fod yna gryn amheuaeth
bellach ynglŷn â'r hanesyn fod Luther
wedi hoelio'i ddatganiadau ar ddrws
eglwys Wittenberg o gwbl! Ac onid
cymhlethu pethau a wnaeth John Calvin
yntau gyda'i ddatganiadau diwinyddol?
Go brin y byddai aelodau'r eglwys heddiw
yn deall beth oedd ganddo fo mewn
gwirionedd, heb sôn am gredu eu bod
nhw'n berthnasol erbyn hyn.

Gorsymleiddio

Mae'n debyg y bydd rhai ohonoch yn
tybio fy mod yn gorsymleiddio pethau,
ond pam fod yn rhaid i ddiwinyddion
gymhlethu pethau pan fo craidd ein ffydd,
a'n cred yng Nghrist, yn rhywbeth mor
sylfaenol o syml i lawer iawn ohonom?
Cefais gyngor gan amryw wrth gychwyn
tua'r Coleg Diwinyddol slawer dydd, imi
wyllo na fyddai darlithoedd y sefydliad
hynod hwnnw yn corddi fy ffydd ac yn
cymylu fy nealltwriaeth o gariad Duw ar
waith yn ei fyd ym mherson, a thrwy, yr
Arglwydd Iesu Grist.

Annog ffydd

Yn ddiweddar, clywais am ymateb yn
diacon nad oedd yn gwerthfawrogi
pregethau sy'n diwinydda, yn hytrach
na dysgu, ac annog pobl y ffydd, i fod
yn debycach i Iesu. Nid oedd yn dda
ganddo fo chwaith glywed pregethau
sydd yn canolbwyntio ar ideolegau'r
Hen Destament yn unig, yn hytrach na
chyfoeth y Testament Newydd, ac yn
arbennig y pedair Efengyl.



Hawfraint: Stephen McKay (CC-SA.2.0)

Camarweiniol?

Duw a'n gwaredo ni rhag dibynnu'n
ormodol ar ddysgeidiaeth hen-ffasiwn
ac athrawiaethau cymhleth a dyfodd
allan o'r Diwygiad Protestannaidd sy'n
perthyn i fyd a chyfnod gwahanol iawn
i'n dyddiau ni. Ydy dweud felly yn ymylu
ar fod yn golledig, neu'n gamarweiniol?
Dim o'r fath beth!

Damcaniaethu

Damcaniaethu a wnaeth dysgedyddion
diwinyddol ar bethau sydd, yn eu tyb
hwy, o dragwyddol bwys, ond sydd o
fydol wraidd mewn gwirionedd. Bron nad
aeth athrawiaethau a damcaniaethau fel
hyn yn 'ysgrythurau' ynddynt eu hunain.
Syniadau a chysyniadau dynol ydynt sydd
wedi cymylu ffydd syml a sanctaidd sy'n
seintwar ac yn symbyliad i bobl Dduw
heddiw.

Symrlwydd

Pan ofynnais i ffrind annwyl pam yr oedd
wedi gadael yr eglwys a hithau wedi bod
yn athrawes ysgol Sul ffyddlon, daeth
yr ateb, 'Fedrwn i ddim gwneud gyda'r
"mymbo-jymbo" ac ati oedd yn gwneud
Duw a Christ yn bell rywsut!'

Byddai diacon arall rwy'n dipyn o
ffrindiau ag ef wastad yn f'annog ar
fore Sul cyn pregethu: 'Keep it simple.'
Ia, nid 'shimpil' ond 'syml'. Bu hynny yn
gyngor da ac amserol i mi. Oherwydd

dylem gofio yn wastad nad yw ein
cynulleidfaoedd yn ddi-ddysg nac yn
ddwl ym mhethau mawr y ffydd, ond
y maent angen eu cynnal a'u cadw a'u
cymell i fod yn well tystion i Grist a'i
gariad ef.

Nid oes cyfaill mewn un man ...

Epistol Iago – epistol o wellt. Dim o'r fath
beth!

Mae'n gyfoethog ei anogaeth ac yn
gatalog o gynghorion ymarferol ar sut y
dylem ymddwyn fel Cristnogion heddiw.
Ac yn fwy na hyn i gyd, y mae'n annog
amynedd a dyfalbarhad a gweddi fel
sylfaen dda ym mhethau'r ffydd. Os ydy
hynny'n fy ngwneud yn weinidog o wellt
yn hytrach na bod yn Gristion 'sownd',
bydded felly, gan nad oes gennyf
gywilydd o fy ffydd, na'm Duw na'm
Harglwydd Iesu Grist. Megis Abraham
gynt, fe barhaf i roi fy ffydd yn Nuw, yn
y gobaith y caiff ei gyfrif yn gyfiawnder
im, ac y caf fy ngalw yn gyfaill iddo ac yn
ddisgybl da i'w Fab Iesu.

Dywedaf a chredaf eto fyth fel Williams
gynt:

Ac nid oes cyfaill mewn un man
Cyffelyb iddo'n bod,
Pe baem yn chwilio'r ddaear faith
A holl derfynau'r rhod.

Jim Clarke
Llanfair-pwll

Pythefnos Masnach Deg 2021

Cynhelir Pythefnos Masnach Deg 2021 rhwng 22 Chwefror a 7 Mawrth. Thema eleni yw Cyfiawnder yr Hinsawdd.

Cydllyr Pythefnos Masnach Deg yn y Deyrnas Unedig gan yr Ymddiriedolaeth Masnach Deg. Bob blwyddyn, mae Pythefnos Masnach Deg yn rhoi cyfle i bobl ar draws y Deyrnas Unedig i ddathlu llwyddiannau Masnach Deg, a dysgu mwy am y gwahaniaeth y mae Masnach Deg yn ei wneud.

Yn ystod Pythefnos Masnach Deg 2021, byddwn yn tynnu sylw at yr heriau cynyddol y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu cyflwyno i ffermwyr a gweithwyr mewn cymunedau y mae Masnach Deg yn gweithio gyda nhw. Mae'r ffeithiau'n syml. Effeithir fwyaf ar ffermwyr a gweithwyr yn hemisffer y de, a nhw sydd wedi gwneud leiaf i gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Maent wedi dweud y canlynol wrthym:

- Y newid yn yr hinsawdd yw eu her fwyaf ar hyn o bryd.
- Mae prisiau isel am eu cynydau'n golygu eu bod yn ei chael hi'n anodd ymladd yn ôl.
- Gyda mwy o arian drwy Fasnach Deg, maent yn teimlo fel petai ganddynt fwy o adnoddau i ddiwallu eu hanghenion beunyddiol a mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn fygythiad uniongyrchol a chynyddol, ac mae'r rhai sy'n byw mewn gwledydd sy'n agored



i niwed oherwydd yr hinsawdd eisoes yn gweld ei effeithiau – o sychder a chlefydau cynyddol i lifogydd, tonnau gwres a chynaeafau sy'n lleihau.

Gyda'r pandemig COVID byd-eang sydd wedi ymddangos, mae'r heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu bellach yn fwy nag erioed, gyda phrisiau is ac ergydion ar hyd ein cadwyni cyflenwi byd-eang. Mae tloedi parhaus mewn cymunedau ffermio'n ei gwneud hi'n fwyfwy anodd i ni ymdopi ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Am wybodaeth am ddigwyddiadau a gynhelir fel rhan o'r Pythefnos Masnach Deg, adnoddau ar gyfer pob oed, gwersi ar gyfer ysgolion, ryseitiau ayyb, dilynwch y ddolen isod:

<https://fairtradewales.com/we/get-involved/fairtrade-fortnight-2021>

Ymgyrch dros Fyd sy'n Rhydd o Covid

Ceir llawer o sôn yn y newyddion am y rhaglen frechu mewn ymateb i'r pandemig byd-eang, a bydd rhai ohonom eisoes wedi bod yn ddigon ffodus i gael brechlyn. Er bod hyn yn destun diolch, yr her fwyaf yw sicrhau mynediad teg i frechlyn ar gyfer y gymuned fyd-eang.

Mae Cynghrair Bedyddwyr y Byd (Baptist World Alliance) yn galw ar deulu'r Bedyddwyr i gefnogi ymgyrch dros fynediad byd-eang a theg i frechiad Covid-19. Mae Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) yn dod â'r gymuned Fedyddiedig fyd-eang at ei gilydd er mwyn codi ymwybyddiaeth ac i gefnogi'r ymgyrch hon.

Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan isod, lle gellir llofnodi deiseb neu lawrlwytho llythyrau templed i'w hanfon at Senedd Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Yn naturiol, mae hon yn alwad sy'n berthnasol i bob traddodiad Cristnogol, a gobeithiwn weld holl eglwysi Cymru yn cefnogi'r apêl hon.

Gofynnwn ichi rannu'r wefan hon: www.covidfreeworld.org.uk ag eraill yn eich eglwys, os gwelwch yn dda.

Yn Nameg y Samariad Trugarog, mae'r Iesu yn ein galw i garu ein cymydog. Gyda'n gilydd, gobeithio y medrwn wneud popeth o fewn ein gallu fel eglwysi i gefnogi'r ymgyrch bwysig hon.



ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 35 – Diwrnod Rhyngwladol y Merched (8 Mawrth) Lydia a'r ferch o dan ysbryd dewiniaeth

Gweddi

Nefol Dad, yr hwn sy'n croesawu pawb i wledd y bywyd, deun fel chwirydd a brodyr yn y ffydd, gan ofyn i ti agor ein calonau a lledu ein golygon er mwyn gweld Iesu o'r newydd. Helpa ni i gydnabod ein gilydd fel pobl gyfartal yn dy olwg di. Dyro i ni weld gwerth yng nghyfraniad pawb ym mywyd yr eglwys a rhoi cyfle teg i bob un fod yn sicr o'n parch a'n cariad. Amen.

Darllen

Actau 16:11–24 – 'ac agorodd yr Arglwydd ei chalon hi'.

Cyflwyniad

Cyfarfu Paul â llawer o bobl ar ei deithiau cenhadol, ond gwelodd Luc yn dda i adrodd hanes sefydlu'r eglwys yn Philipi, a sôn yn arbennig am Lydia, gwraig yn gwerthu porffor, a merch a ddaeth o dan ddylanwad ysbryd dewiniaeth. Hanai Lydia o Thyatira a thybir ei bod yn wraig gyfoethog am fod porffor yn gostus, a dim ond pobl gyfoethog a fedrai ei brynu. Dywedir ei bod yn wraig oedd yn addoli Duw. Roedd y ferch o dan ddylanwad dewiniaeth o gefndir cwbl wahanol, a nodir ei bod yn eiddo i'w meistri neu o dan ddylanwad ei meistri. Rhaid eu bod hwythau'n bobl o ddylanwad yn lleol, oherwydd fe wnaethon nhw gwyno wrth yr awdurdodau fod Paul wedi newid natur y ferch a'i rhyddhau o'r ddewiniaeth a'i caethiwodd.

Wedi i Paul a Silas dreulio amser yng nghaethiwed y carchar, noda Luc fod daeargryn wedi digwydd, a bod adeilad

y carchar wedi siglo fel bod yr holl garcharorion yn rhydd. Roedd caethiwed y ferch ifanc yn gwbl wahanol i gaethiwed Paul a Silas, ond daeth hi, ceidwad y carchar a Lydia yn aelodau cynnar yn yr eglwys gyntaf ar gyfandir Ewrop. Oddi mewn i'r eglwys hon roedd y cyfoethog a'r tlawd yn aelodau, a byddai'n braf credu eu bod yn frodyr a chwirydd yn y ffydd wrth ddilyn Iesu fel Arglwydd eu bywydau.

Myfyrdod

Mae'n anodd peidio nodi ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched fod Luc yn pwysleisio'r lle amlwg oedd i wragedd yn yr Eglwys Fore. Cawn yr un pwyslais ganddo yn ei Efengyl, pan oedd hawliau merched yn ymylu ar fod yn ddim. Er y pwyslais cadarnhaol gan Luc, prin fod y gwledydd ar draws y canrifoedd wedi dal eu gafael ar yr un pwyslais.

Ychydig dros ganrif yn ôl etholwyd Constance Markievicz yn Aelod Seneddol yn 1918 yn enw Sinn Féin, er na chymerodd ei sedd yno. Flwyddyn yn ddiweddarach etholwyd Nancy Astor i'r senedd, gan agor cwys newydd sydd eto i weld cydbwysedd llwyr yn Nhŷ'r Cyffredin. Hawlir bod traean o'r Aelodau Seneddol yn San Steffan bellach yn wragedd, ond prin fod hyn yn gynrychioliadol o boblogaeth Prydain. Gwelir yr un annhegwch mewn sefydliadau gwleidyddol, ym myd masnach, ac mewn ystod eang o broffesiynau, a hynny ar draws y byd. Hyd yn oed eleni, fydd hawliau merched mewn rhai gwledydd fawr gwell na statws y ferch ifanc a oedd yn dwyn incwm i'r 'meistri' yn adnod 17.

Prin fod yr eglwys wedi dal eu gafael ar y gwirionedd mawr sy'n cael ei bwysleisio

gan Luc. Mae'n wir fod dau o chwe esgob yr Eglwys yng Nghymru yn ferched, a bod yna enghreifftiau teilwng o ferched sy'n weinidogion eglwys, ond canran fechan sydd yn rhengoedd pob un o'r enwadau. Mae lle amlwg i wella. Erys y cysyniad mai dynion ddylai fod wrth y llyw, ac ail ddewis yw merched mewn cymaint o feysydd.

Bu chwyldro mewn sawl maes ac mae angen i'r enwadau ledled y byd weld 'daeargryn' yn siglo muriau ein traddodiadau a'n cyfundrefnau Cristnogol, er mwyn darganfod y gwirionedd amlwg sydd yn hanes Philipi. Beth yw bod yn eglwys yn ein hoes a'n cymunedau ni? Onid darganfod cymunedau ffydd yn torri bara a rhannu o'r un bwrdd, yn gymunedau cyfartal – beth bynnag ein hoed a'n cefndir, ein sgiliau a'n rhyw.

Gweddi

Diolch i ti, nefol Dad, am bob arwydd o ffydd a thystiolaeth yn ein bro a'n byd. Tywys ni at dy fwrdd, i rannu mewn mawl er mwyn dathlu cymdeithas Iesu gyda'n gilydd. Amen.

Trafod ac ymateb

- Meddyliwch am gylch dylanwad Lydia a'i gallu i ddwyn perswād ar Paul (adn. 15). Beth a wnaethoch chi o blaid yr Efengyl yng nghylch eich dylanwad chi?
- O ystyried caethiwed y ferch fach i'w meistri, beth allwn ni ei wneud heddiw dros ferched sydd wedi'u caethiwo yn debyg iddi?
- O feddwl am y merched a ddaeth yn rhan o'r eglwys a dyfodd yn Philipi: Lydia, y gaethferch, gwraig y carcharwr. Beth dybiwch chi oedd eu rhan nhw a'u tystiolaeth ynddi?

S4C

Sul, 7 Mawrth

Oedfa Dechrau Canu, Dechrau Canmol am 11:00yb yng ngofal Aled a Delyth Wyn Davies, Gofalaeth Chwilog a'r cylch.

Dechrau Canu, Dechrau Canmol, nos Sul, am 7:30yh

Yr wythnos hon mae'r tîm yn troi'r lens arny'n nhw eu hunain, a chlywn am brofiad dirdynnol Ryland Teifi a gollodd ei dad, Garnon Davies – un o gymeriadau lliwgar Ceredigion, yn ystod y pandemig. Mae Ryland yn siarad yn agored am ba mor anodd yw ymdopi â cholled a galar yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hefyd yn cyfarfod am y tro cyntaf â'r nyrs fu'n gofalu am ei dad yn ystod ei oriau olaf.

(Daeth gwybodaeth i law y bydd yr oedfaon ar y teledu yn parhau eto yn ystod mis Mawrth. Diolch i gwmni Rondo am eu darpariaeth. Yr ydym yn cydymdeimlo efo holl weithwyr y cwmni a gafodd eu heffeithio nid yn unig gan haint y Coronafeirws ymhlith eu staff, ond gan farwolaeth frawychus eu cyd-weithiwr Huw Gethin Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf efo'i deulu i gyd. Gol.)

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 7 Mawrth, 7:30yb a 4:30yp
Ailddarllediad o Gapel Mair, Aberteifi, gyda Margaret Daniel yn cyflwyno

Oedfa Radio Cymru

Sul, 7 Mawrth am 12:00yp
yng ngofal Jason Jones, Treforys

Gweithredu a Gweddio gydol y Grawys

5

Dydd Gwener, Mawrth 5^{ed}
Gweithred: Ffoniwch rywun sy'n byw ar ei ben ei hun neu ar ei phen ei hun heddiw.

Gweddi: Gweddïwch dros y tîm o bobl ar hyd a lled Cymru sy'n brechu pobl ar hyn o bryd.

6

Dydd Sadwrn, Mawrth 6^{ed}
Gweithred: Gwnewch adduned i roi rywbeth yn y banc bwyd pan fyddwch yn siopa nesa.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb sy'n colli gweld ffrindie dros y penwythnos.

7

Dydd Sul, Mawrth 7^{ed}
Gweithred: Darllenwch Bennod 21 o Efengyl Mathew i baratoi ar gyfer yr wythnos fawr.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb fydd yn arwain oedfa heddiw, boed mewn capel neu dros y we.

8

Dydd Llun, Mawrth 8^{ed}
Gweithred: Postiwch gerdyn gyda gair o anogaeth i rywun sy wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

Gweddi: Gweddïwch dros holl blant Cymru ar ddechrau wythnos ysgol newydd.

9

Dydd Mawrth, Mawrth 9^{ed}
Gweithred: Rhowch far o siocled i rywun sy'n dod i ddrws eich tŷ, fel postmon neu ddyd llefrith.

Gweddi: Gweddïwch dros Senedd Cymru a phawb sy'n gweinyddu yng nghyfnod Covid-19.

10

Dydd Mercher, Mawrth 10^{ed}
Gweithred: Os byddwch yn mynd am dro, beth am fynd â bag gwag efo chi i hel sbwriel ar eich taith.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb sy'n gweithio mewn ysbytai a meddygfeydd yn y cyfnod anodd yma.

11

Dydd Iau, Mawrth 11^{ed}
Gweithred: Beth am wneud cyfraniad i elusen heddiw? Mae modd gwneud hyn yn hawdd ar lein.

Gweddi: Gweddïwch dros y rhai hynny mewn cartrefi gofal nad ydynt yn medru gweld eu teuluoedd ar hyn o bryd.



Adnoddau ar gyfer y Pasg

Unwaith eto, ceir adran helaeth ar wefan cristnogaeth.cymru lle ceir gwybodaeth am yr amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i eglwysi: www.cristnogaeth.cymru/pasg/

Mae adnoddau amrywiol, fel gwasanaethau a gweddïau, ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, yn ogystal â gwybodaeth am adnoddau y gellir eu rhannu ymhlith plant ac oedolion.

Adnoddau Cenhadol y Pasg – Haleliwia! Cododd Crist yn fyw

Ar gyfer y Pasg mae Cyngor yr Ysgolion Sul wedi paratoi cyfres o adnoddau a fydd yn galluogi eglwysi i gyflwyno neges a llawenydd y Pasg o fewn ein cymunedau mewn ffordd drawiadol ac effeithiol.

Yn ganolbwynt i'r cyfan mae cylchgrawn lliwgar, 16 tudalen, sy'n cynnwys darlenniadau Beiblaidd, erthygl yn sôn am 'Pam cofio marwolaeth Iesu?' gan Arfon Jones, posau, croesair, rysâit cacen Feiblaidd, gweddïau, tudalen i'r plant a nifer o erthyglau diddorol. Mae modd prynu copiâu o'r cylchgrawn am 99c yr un, neu becynnau o 100 copi am £50 (50c yr un). Yn ogystal hefyd mae baner liwgar ar gyfer ei

harddangos tu allan i'ch capel (2 fetr wrth 0.5 metr) ar gael am £25 yr un, neu faner tu mewn (roller banner) am £50 yr un. Mae cerdyn Pasg hefyd ar gael yn yr un cynllun i'w ddefnyddio i'w anfon ar ran yr eglwys.

Cliciwch yma i ddarllen mwy:

<https://www.ysgolsul.com/wp-content/uploads/2019/02/ffurflen-archebu-adnoddau-pasg.pdf>

Comics Beiblaidd ar gyfer y Pasg

Mae nifer o gomics Beiblaidd ar gyfer y Pasg ar gael i'w cyflwyno i blant. Maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer plant oed cynradd, ac ar gael am y pris arbennig o 60c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynnau mawr o 50 am £25 neu 100 am £40. Gellir trefnu i'w cludo i ganolfannau arbennig, neu os bydd angen eu postio, bydd yn rhaid codi cludiant ychwanegol.



Mae *Seren Jerwsalem* yn addas ar gyfer plant 6 i 11 oed. Mae'r comic hwn yn cynnwys stori'r Pasg ar ffurf comic, tudalennau sy'n cynnwys gwaith crefft, posau amrywiol a gweithgareddau, ynghyd â stori'r Pasg.

Cliciwch yma i archebu:

<https://www.ysgolsul.com/wp-content/uploads/2015/01/ffurflen-archebu-adnoddau-pasg.pdf>

Llyfr Lliwio y Pasg Cyntaf

Mae llyfr lliwio newydd ar gael sy'n cyflwyno stori'r Pasg ynghyd â 12 llun i'w lliwio. Anrheg delfrydol i blant 5–11 oed. Pris arferol £1.99, ond telerau arbennig ar gael drwy gysylltu â Chyngor yr Ysgolion Sul.



Newyddion lleol o'r eglwysi

Rydym yn awyddus iawn i gynnwys newyddion o'r eglwysi lleol: digwyddiadau, symudiadau, teyrngedau byr, llongyfarchiadau a dymuniadau gorau. Gyrrwch eich newyddion at y golygydd newyddion eglwysi,

Aled Davies at aled@cennad.cymru

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Dyma babell y cyfarfod ...

Darllen: Salm 19

Emyn 325: Mae'r Iesu'n fwy na'i roddion

Gwedd

Sanctaid Dduw, crëwr bydysawd, rhoddwr bod a chynhaliwr popeth sydd, addolwn di. Yr wyt yn galw sêr a phlanedau wrth eu henwau, a mân lwch y cloriannau yw holl bobloedd y byd ger dy fron. Addolwn di.

Cyffeswn ein pechodau niferus ger dy fron – ein diffyg gofal o'r greadigaeth ac o'n gilydd. Daeth dy gyfraith atom i'n bywhau a'n hyfforddi. Cyffeswn ein bod fel hil, fel unigolion, wedi cefnu a chrwydro oddi ar dy lwybrau di, llwybrau sydd yn fywyd ac yn heddi i gyd. Diolch y daethost i geisio ac i gadw'r hyn sydd ar goll. Diolch bod dy lais yn parhau i'n galw er i ni grwydro, a diolchwn i ti fod Iesu Grist a'i groes a'i atgyfodiad yn ddoethineb ac yn nerth i'w blant. Drwy rym dy air a gallu'r Ysbryd Glân o'n mewn, gwna ni yn ddoeth i iachawdwriaeth yng Nghrist ac yn gyfryngau iechyd yn ein byd a'n cymunedau. Er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Cyflwyniad

Dychmygwch y sefyllfa. Mae cyfarfod blynyddol yr Undeb neu'r Gymanfa Gyffredinol wedi dechrau, y Llywydd ar ei thraed neu ei draed, ac mae popeth yn mynd yn ei flaen dan ganu. Mae'r adroddiadau ariannol yn cael eu cyflwyno, a thrafodaethau cyllidol yn parhau'n ddiraffferth. Angen mwy o arian; ychydig llai o aelodau i gyfrannu; ond fe fyddwn yn iawn am flyyddyn arall, siŵr o fod! Ac yna daw rhywun ifanc i mewn a thorri ar draws y cyfarfod. Mae'r cyfryngau newyddion yn ei ddilyn. Ac wrth iddo gerdded i'r blaen mae'n siarad ac yn gweiddi: 'Mae'r cwbl rydych yn ei wneud yn rhagrith, yn gelwydd, yn anonest. Mae yna bobl yn trengi a does dim ots gennyh. A phobl yn marw o newyn, ond does dim ots cyn belled â'ch bod yn cael parhau gyda'ch system o grefydd. Mae 'na bobl sy'n chwilio am Dduw, ac os na ddônt ar eich telerau chi, ar y tu allan fyddan nhw.'

Ac yna fe ddaw i'r blaen, a gafaely yn Beiblaau sydd ar fyrdau'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'u taflu o'r neilltu.

Beth, dybiech chi, fyddai ymateb y cynrychiolwyr a'r Llywydd a'r swyddogion eraill? Pwy yw hwn? Dydych chi ddim hyd yn oed yn aelod yn ein plith. Pwy mae'n o'n

meddwl ydy o – yn achosi'r fath anhrefn ac yn siarad mor llym wrthym ni, o bawb?

Darlleniad: Ioan 2:13–25

Myfyrdod

Dacw Iesu yn cyrraedd y deml am y tro cyntaf ac yn achosi'r cythrwfl mwyaf posib. Yno, yn llys allanol y deml croesewid y 'cenedloedd' – hynny yw, y rhai nad oeddnt yn Iddewon. Roedd croeso iddynt nesu at bresenoldeb yr Arglwydd, ond ni chaent fynd ymhellach na'r llys allanol. Yn hytrach na bod yn fangre gysegredig, yn llawn o dawelwch ac o urddas a myfyrdod, llenwid llys y cenedloedd gan weiddi gwerthwyr bustych a cholomennod ac w'yn i'w haberthu gan offeiriad y deml.

Roedd angen marchnad o ryw fath arnynt. Wedi'r cyfan, doedd dim disgwyl i bererinion o bell gario'u hebyrth am filltiroedd lawer!

Llys y cenedloedd oedd y llys mwyaf o ran ei faint. Oddi mewn i fur uchel, ceid llys y gwagedd ac o flaen hwnnw llys yr offeiriad, lle safai'r allor ar gyfer derbyn yr ebyrth. O flaen hwn safai'r cysegr, ac oddi mewn i hwnnw y cysegr sancteiddiaf. O gwmpas pob llys yr oedd mur, ac ni chât neb groesi y tu hwnt i'r ffiniau penodedig.

Y diwrnod hwnnw, yn ôl adroddiad Ioan, 'Gwnaeth [Iesu] chwip o gordenni, a gyrrodd hwy oll allan o'r deml, y defaid a'r ychen hefyd. Taflodd arian mân y cyfnewidwyr ar chwâl, a bwrw eu byrdau wyneb i waered. Ac meddai wrth y rhai oedd yn gwerthu colomennod, "Ewch â'r rhain oddi yma. Peidiwch â gwneud tŷ fy Nhada i yn dŷ masnach." (Ioan 2:15–16) Mae'n amlwg nad oedd y cyfnewidwyr arian yn deall beth oedd yn digwydd ar y pryd; colli stoc a busnes ac adfer eu helw oedd eu blaenoriaeth y diwrnod hwnnw!

Cyhoeddodd Iesu symbyliad ei weithred. Oni ragwelodd Eseiâ'r dydd pan gâi pobloedd y ddaear eu cynnwys a'u croesawu ymhlith pobl yr Arglwydd (Eseiâ 56:7–8). Bwriad yr Arglwydd oedd 'casglu alltudion Israel' ynghyd â'r 'holl genhedloedd' i'w dŷ. Hawliodd Iesu hefyd fod ganddo awdurdod i wneud hyn am fod ganddo berthynas neilltuol â'r Arglwydd Dduw. 'Tŷ fy Nhada' ydoedd, wedi'r cyfan. Ac yn nhŷ fy Nhada, nid masnach oedd â'r flaenoriaeth!

Yn naturiol ddigon, heriodd arweinwyr y deml Iesu. Pa hawl oedd ganddo? Pa

awdurdod oedd ganddo? Pa dystiolaeth oedd ganddo i gadarnhau'r fath haeriadau amdano'i hun neu i roi iddo awdurdod i gyflawni'r fath weithredoedd (adn. 18)?

Ni ddeallodd hyd yn oed ei ddisgyblion ei ateb enigmatig ar y pryd (adn. 19). Dim ond wedi'r atgyfodiad, y goncwest ar angau a'r bedd, y dechreuasant amgyffred mawredd ei haeriad.

'Dinistriwch y deml hon,' meddai. Ac fe glywodd ei wrandawyr her a bygythiad i'r deml ac i'r drefna ddatblygwyd ganddynt! Ond roedd geiriau Iesu'n fwy chwyldroadol na dinistrio adeilad a sefydliad crefyddol, urddasol, na chwalu'r *status quo*. Roedd arwyddocâd ei eiriau'n fwy chwyldroadol na hynny hyd yn oed.

Beth y mae yn ei ddatgan yw mai ef ei hun, Mab Duw, y gair a ddaeth yn gnawd, yw'r 'deml', y 'lleoliad' lle gall Iddewon a phobl o bob tras a chenedl gwrdd â Duw, mai Ef ei hun oedd yn cyflawni disgwyliad Eseiâ. Nid mewn ffurfiau allanol crefydd, nac mewn adeiladau urddasol, nac mewn traddodiad crefyddol cyfoethog y mae canfod yr arglwydd. Ond mewn person, ynddo Ef ei hun.

Nid yw'n apelio at ddysgeidiaeth foesol nac athronyddol i gadarnhau ei awdurdod.

Yn ôl Iesu ei hun, yr unig arwydd, yr unig gadarnhad o'i awdurdod, yw ei atgyfodiad o farwolaeth. Ei atgyfodiad yw buddugoliaeth yr Arglwydd Dduw dros bechod y ddynolryw, dros deyrnasiad marwolaeth, dros gaethiwed ein dychmygion.

Ni all holl ddoethineb yr oesau, holl adeiladau, na phensaerniaeth fwyaf dyrchafol y byd, holl draddodiadau, holl ganiadau, holl ddefodau crefyddol yr oesau greu'r man i gwrdd â Duw. Yn ôl Iesu, mewn person, mewn corff fydd yn cael ei dorri drosom, mewn aberth a dywelltir drosom, mewn concwest a enillwyd er ein mwyn, mewn bywyd a dywelltir yn om y mae cwrdd â Duw. Cafwyd yng Nghrist Iesu 'fan yn ymyl Duwdod i bechadur wneud ei nyth, / A chyfiawnder pur y nefoedd yn siriol wenu arno byth'.

Dyma aruthredd gogoneddus a phellgyrhaeddol haeriad Iesu.

Gwedd dawl

Emyn 338: Dyma babell y cyfarfod ...

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaid Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)